Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Maes Owen
Rhodfa Morfa
Bae Cinmel
Y Rhyl
LL18 5LE

24/09/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Maes Owen ar 16 Medi 2025 i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau bod disgwyliadau athrawon o ddeilliannau disgyblion a'u hymatebion i waith disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol.**

- Mae arweinwyr wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan at adborth sy'n cael ei deall yn dda gan ddisgyblion a staff.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso'r defnydd o adborth athrawon ar draws yr ysgol trwy deithiau addysgu a dysgu, a gwrando ar ddysgwyr. O ganlyniad, mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth addas o gryfderau a meysydd i'w datblygu.
- Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth werthusol o'r gweithgareddau hyn i drefnu dysgu proffesiynol defnyddiol sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff am gynnig adborth effeithiol i ddisgyblion.
- Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae staff yn rhoi adborth clir ar lafar ac yn rhannu meini prawf llwyddiant defnyddiol gyda disgyblion. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i wybod beth maent wedi'i wneud yn dda a nodi'r camau nesaf mewn dysgu.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Ar draws yr ysgol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn tueddu i ganolbwyntio ar gywiro sillafu neu atalnodi ac nid yw'n rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella agweddau pwysig o'u gwaith ysgrifenedig sy'n benodol i genre.

**Cryfhau'r ddarpariaeth i ddisgyblion siarad Cymraeg.**

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r Gymraeg, ac maent yn disgrifio'r weledigaeth hon yn bwrpasol gydag eraill. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd siarad Cymraeg ac arddel y diwylliant yn dda, ac o ganlyniad, mae gan staff a disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg, ei threftadaeth a'i thraddodiadau.
- Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n gwella medrau Cymraeg staff ac yn datblygu eu hyder i gefnogi dysgu'r disgyblion.
- Mae staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau difyr sy'n datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru ac yn ennyn brwdfrydedd llawer o ddisgyblion yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.
- Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio patrymau Cymraeg cyffredin a geirfa Gymraeg syml yn briodol wrth siarad. Maent yn ateb cwestiynau sylfaenol yn hyderus ac mae ychydig o ddisgyblion yn ymhelaethu ar eu hatebion, gan roi rhesymau i gefnogi eu barn. Yn gyffredinol, mae medrau Cymraeg disgyblion wedi'u cyfyngu i eirfa ac ymadroddion syml.
- Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau effeithiol â'r gymuned sy'n hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg yn bwrpasol. O ganlyniad, mae ymgysylltiad disgyblion a'u mwynhad o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol a llai ffurfiol yn bwrpasol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-maes-owen-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol